**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/RE/3468/22

Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CAERDYDD
CF99 1SN

30 Tachwedd 2022

Annwyl Elin,

**Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) (Diwygio) 2022 ("y Rheoliadau")**

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946 rwyf yn eich hysbysu y daw'r offeryn statudol hwn i rym ar 2 Rhagfyr 2022, llai na 21 diwrnod ar ôl iddo gael ei osod. Amgaeir copi o'r offeryn a'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd ag ef er gwybodaeth ichi.

Mae'r Rheoliad yn diwygio Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) 2003 ("Rheoliadau 2003") i ddarparu ar gyfer arferion cyfrifyddu mewn perthynas â thrin asedau seilwaith yr awdurdodau lleol. Effaith yr arfer cyfrifyddu yw caniatáu i'r awdurdodau lleol ddewis trin unrhyw elfen ar unrhyw seilwaith y maent yn berchen arno fel un sydd â gwerth o ddim pan gaiff ei disodli. Nid yw'n ofynnol i'r awdurdodau lleol ddefnyddio'r driniaeth gyfrifyddu hon. Gellir defnyddio'r driniaeth gyfrifyddu hon i baratoi pob datganiad o gyfrifon o 1 Ebrill 2021. Bydd yr offeryn yn gymwys i ddatganiadau o gyfrifon ar gyfer y blynyddoedd ariannol hyd at a chan gynnwys y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2025.

Y rheswm dros beidio â chadw at y confensiwn 21 diwrnod yn yr achos hwn yw bod disgwyl i'r awdurdodau lleol wneud a sicrhau cymeradwyaeth i'r cyfrifon mewn da bryd. Nodwyd y mater hwn yn gynharach eleni ond ni allai'r cyrff cyfrifyddu proffesiynol ei ddatrys ac yn unol â hynny roedd angen darpariaeth statudol. Mae hyn wedi gohirio'r amserlen ar gyfer archwilio a chymeradwyo cyfrifon y tu hwnt i'r dyddiad disgwyliedig gwreiddiol o 30 Tachwedd. Mae'r awdurdodau lleol yn wynebu pwysau cyllidebol sylweddol ar hyn o bryd a rhai penderfyniadau anodd iawn ynghylch gwasanaethau. Byddant yn cael eu setliad drafft ar 14 Rhagfyr 2022 a bydd angen iddynt ganolbwyntio holl amser y swyddogion ac amser cyngor sydd ar gael iddynt ar gynllunio ar gyfer y gyllideb a gwasanaethau. Os bydd oedi pellach, byddai'r broses o gymeradwyo'r cyfrifon yn cymryd amser swyddogion ac amser y cyngor ar adeg dyngedfennol. Mae oedi wedi cael effaith ar amserlenni Archwilio Cymru, gyda'r gwaith yn

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

cael ei ohirio tan fis Ionawr/Chwefror 2023, gan effeithio ar allu Archwilio Cymru i gwblhau holl archwiliadau'r cynghorau cymuned a dechrau archwiliadau'r Awdurdodau Lleol 2022-23
Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Materion Gwledig, Gogledd Cymru a'r Trefnydd; Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad; Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd; Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government